

Castell Caerdydd

Gweithdy Marchogion, Morwynion a Dreigiau

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg. Caiff ei arwain gan hwylusydd proffesiynol. Mae taith dywys o'r tŷ yn rhan o bris yr ymweliad.

Disgrifiad

Gadewch i'r dychymyg fynd yn wyllt yn y gweithdy adrodd straeon hwn gyda hanesion am farchogion canoloesol, morwynion mewn trallod a dreigiau. Bydd disgyblion yn creu eu stori wreiddiol eu hunain wedi'i lleoli yng Nghastell Caerdydd. Bydd y stori yn cael ei recordio ac wedyn anfonir CD o'r fersiwn wedi'i golygu, gydag anterliwtiau cerddorol, i'r ysgol.

Arweinir y gweithdy gan hwylusydd proffesiynol sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

Taith Dywys o'r Castell

Yn ystod y daith dywys yng Nghastell Caerdydd, bydd disgyblion yn gweld rhai o'r ystafelloedd mwyaf godidog o gyfnod Fictoraidd yn hanes y Castell (er eu bod wedi'u haddurno i edrych fel y tu mewn i gastell canoloesol), gan gynnwys meithrinfa'r plant sydd â wal deils tylwyth teg hardd a llusernau hwiangerddi.

Hyd

Bydd y gweithdy yn para 60 munud. Bydd y daith dywys yn cymryd tua 50 munud ond gall y rhai â phlant ifanc iawn ddewis opsiwn byrrach (tua 30 munud) sy'n hepgor y rhan â'r grisiau troellog yn un o'r tyrrau.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu sut i ddefnyddio meim, mynegiant wynebol a symudiadau i bortreadau gwahanol gymeriadau ac emosiynau
- ◆ Dysgu am amlinell plot a chymeriadau cyffredinol mewn chwedlau
- ◆ Dysgu sut y gellir gwyrddroi rolau a nodweddion cymeriadau cyffredinol wrth greu stori
- ◆ Dysgu sut i greu plot a chymeriadau ar gyfer eu stori a chreu tensiwn o fewn y stori
- ◆ Dysgu am y pwysigrwydd o gadw pethau'n berthnasol yn eu stori
- ◆ Dysgu am bwysigrwydd y "broblem fawr" wrth greu stori
- ◆ Dysgu sut i siarad yn glir gan ddefnyddio meicroffon a sut i ddefnyddio mynegiant priodol
- ◆ Dysgu sut i gymryd tro a gweithio mewn tîm

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Sylfaenol/Blynyddoedd Cynnar**
 - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
 - Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
 - Datblygiad Creadigol
 - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
 - Cymraeg/Saesneg - Llafaredd
 - Sgiliau – Y Cwricwlwm Cymreig, TGCh, Cyfathrebu, Meddwl, Addysg Personol a Chymdeithasol
- ◆ **Cyfnod Allweddol 1 a 2 (Lloegr)**
 - Saesneg – Iaith Lafar

Ar gyfer Cymru a Lloegr, gall yr ymweliadau gwmpasu'r rhan fwyaf o gyfnodau o hanes a astudir yn CA2 (Rhufeiniaid, Normaniaid/Oes y Tywysogion, Oes Fictoria a'r 1940au).

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol ar gyfer y Tiroedd a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant.
- Sioe ffilm a mynediad i holl ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn bob amser.

